# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 29/06/11

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Huw Edwards, Selwyn Griffiths, Pat Larsen, a Dafydd Roberts.

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd), Mr Gwyn Hefin Jones (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mrs Eirian Bradley-Roberts (Yr Eglwys Gatholig).

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), Miss Miriam Williams (NAS/UWT).

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Miss Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), Mrs Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Steve Churchman, John Gwilym Jones (ex officio), Mr Rheinallt Thomas, Mrs Alwen Watkin, Ms Elisabeth Roberts a Mrs Leusa Jones.

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Gwyn Hefin Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2011 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i'r isod:

Eitem 6 (b) – Gŵyl Dathlu Addysg Grefyddol 2011 - newid Capel Peniel i ddarllen Capel Penuel, Bangor.

## 4. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

**Cyflwynwyd:**

Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion canlynol:

(i) Ysgol Abersoch
(ii) Ysgol Carmel
(iii) Ysgol Cwm y Glo
(iv) Ysgol y Faenol
(v) Ysgol Uwchradd y Gader

**Adroddwyd:** (a) Gan Glerc CYSAG, o dan drefn newydd o arolygu, ei fod wedi derbyn yr hunan arfarniadau ar addysg grefyddol gan yr ysgolion uchod (sef 4 ysgol gynradd ac un uwchradd) a oedd wedi derbyn arolygiadau yn ystod tymor yr Hydref ac eithrio Ysgol Carmel a dderbyniodd arolwg yn ystod tymor y Gwanwyn. Yn anffodus, roedd rhai ysgolion heb anfon hunan arfarniadau ac fe'u hatgoffir yn barhaus o'r angen i'w cwblhau er mwyn i CYSAG Gwynedd fedru datblygu'r rôl o fonitro Addysg Grefyddol.

(b) Gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau ei gwerthfawrogiad i'r ysgolion am rannu'r wybodaeth yn yr hunan arfarniadau ac wedi ymgymryd â'r dasg yn gydwybodol.

Nodwyd bod gwahaniaeth yng ngwybodaeth hunan arfarniadau'r sector cynradd a'r sector uwchradd. Gall ysgolion uwchradd gyfeirio at ddata asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 fel ymateb i ran o gwestiwn allweddol 1 a gellir hefyd gyfeirio at ganlyniadau plant sydd yn sefyll arholiadau allanol mewn astudiaeth grefyddol.
Tra bod ysgolion cynradd ar y llaw arall yn ddibynnol ar gynlluniau gwaith y cydlynydd addysg grefyddol, arsylwadau, arolwg o lyfrau, gwaith thema, neu'r arolwg.

O'r hunan arfarniadau a gyflwynwyd, ceir yr argraff bod rhai ysgolion wedi ymateb yn benodol i'r cwestiwn allweddol o fewn cyd-destun addysg grefyddol tra bod ysgolion eraill wedi mynd drwy holl ddogfennau hunan arfarnu ac wedi dethol brawddegau oedd yn berthnasol ac yn benodol i addysg grefyddol.

Gofynnir i ysgolion fod yn onest yn eu hunan arfarniadau drwy gyfeirio at elfennau sydd yn digwydd mewn addysg grefyddol ac ymfalchïwyd yn eu parodrwydd i nodi agweddau i'w datblygu ymhellach. Cyfeiriwyd at rwystredigaeth all godi i athrawon o gyflwyno addysg grefyddol yn y cyfnod sylfaen pe byddai rhieni yn dymuno eithrio plentyn o addysg grefyddol. Yn y cyswllt hwn, byddai'n rhaid i athro / athrawes nodi pa gyfnod o amserlen yr wythnos y bwriedir cyflwyno addysg grefyddol sydd i'r graddau yn gwrthdaro hefo egwyddorion y cyfnod sylfaen.

O safbwynt addoli ar y cyd, nodwyd bod cyfeiriad da gan ysgolion yn y cyswllt hwn a gwelir eu bod yn chwilio am ddulliau amgen o'i gyflwyno boed hyn mewn sefyllfa dorfol lle mae pawb yn ymgynnull gyda'i gilydd, mewn dosbarthiadau unigol neu drwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol, a.y.b.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) gofynnwyd a oedd y drefn o gyflwyno hunan arfarniadau yn digwydd drwy Gymru ac a oedd yn rheidrwydd i CYSAG ymateb i'r ysgolion yn deillio o'r arfarniadau.

Mewn ymateb, esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau mai rôl CYSAG ydoedd monitro'r hunan arfarniadau ac nad oedd rheidrwydd i ymateb oni bai bod aelodau CYSAG yn dymuno hynny. Ychwanegodd, bod y drefn o gyflwyno hunan arfarniadau yn digwydd drwy Gymru o eleni ymlaen a bod rhai ysgolion yn Ne Cymru yn eithaf hapus i gyflwyno eu hunan arfarniadau i sylw CYSAGau yn flynyddol ond y drefn yng Ngwynedd a Môn ydoedd gofyn i ysgolion gyflwyno eu hunan arfarniadau yn y flwyddyn y maent yn cael eu harolwg gan ESTYN.

(b) gofynnwyd ymhellach beth ddylai aelodau CYSAG chwilio amdano yn yr hunan arfarniadau yn enwedig o adroddiadau yn y wasg yn ddiweddar am ysgolion yn tangyflawni.

Esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau y dylai ysgolion ymateb i'r gofynion statudol, i'r maes llafur cytûn ac i'r addysg grefyddol statudol yn y sector uwchradd. Drwy hyn y dylent:

- Ymdrin â chwestiynau sylfaenol
- Archwilio credoau dysgeidiaeth ac arferion
- Mynegi ymatebion personol

Dylid annog disgyblion i gynnal archwiliad, defnyddio ffynonellau a hyd yn oed mynd at gymunedau crefyddol boed hyn i'w holi neu fenthyg deunyddiau, a.y.b.

(c) mynegwyd pryder ynglŷn â diffyg un ysgol i nodi os ydoedd yn gweithredu addoli ar y cyd ai peidio a gofynnwyd am fwy o wybodaeth yn hyn o beth.

Mewn ymateb, esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod pwysau ar athrawon i fod yn arfarniadol yn hytrach na disgrifiadol a bod rhai Penaethiaid yn syrthio rhwng dwy stôl, ddim digon dewr i fod yn ganmoladwy.

(ch) mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r nifer o'r ysgolion nad oeddynt wedi cyflwyno hunan arfarniadau, cadarnhaodd Clerc CYSAG y byddai'n eu hatgoffa a hyderir y byddent yn eu cyflwyno maes o law.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr hunan arfarniadau.**

## 5. DATHLU ADDYSG GREFYDDOL

(a) Rhoddwyd cyfle i Aelodau edrych ar ffilm fer i roi blas iddynt o ddiwrnod lansio Gŵyl Dathlu Addysg Grefyddol yn Ysgol Stanwell, Penarth, ar 2 Mawrth 2011, wedi ei ffilmio gan ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol y Barri, ac yn dangos cyfraniadau gan ddisgyblion Ysgol Stanwell ac ysgolion eraill y cylch.

Adroddodd Mr Wyn Meredith bod y ffilm yn adlewyrchiad ac yn gofnod da iawn o'r diwrnod a'i fod yn ymfalchïo o fod wedi bod yn bresennol. Ychwanegodd bod cyfraniadau'r ddau arweinydd sef Norah Glass a Rheinallt Thomas yn ganmoladwy dros ben.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau y cynhaliwyd cystadlaethau i ysgolion fel rhan o'r dathliad gyda nifer o ysgolion wedi cystadlu.

(b) Derbyniwyd cyflwyniad, ar ffurf sleidiau, gan Ms Miriam Williams o'r hyn a wnaethpwyd yn Ysgol Eifionydd fel rhan o'r dathlu. Bu iddynt sefydlu hysbysfwrdd tu allan i'r ystafell ddosbarth fel bo disgyblion yn gallu arddangos i holl ddisgyblion yr ysgol y gweithgareddau fyddai'n mynd ymlaen yn ystod y mis o ddathlu. Derbyniodd y disgyblion gyflwyniad ar "Beth yw pwrpas Addysg Grefyddol"? Bu Blwyddyn 9 yr ysgol yn edrych ar Addysg Grefyddol a'r byd gwaith ac fe gynhaliwyd grwpiau trafod i'r disgyblion fynegi barn ac iddynt gyfleu eu teimladau mewn ffordd arbennig. Edrychwyd hefyd ar enwogion er

mwyn cyplysu cred a chrefydd hefo math arbennig o berson fel bo modd dangos pegwn gwahanol i'r disgyblion. Teimlwyd bod yr hysbysfwrdd yn ffurf dda i'r disgyblion fynegi eu syniadau mewn ffordd wahanol.

Yn ogystal cynhaliwyd cystadleuaeth i gynllunio logo i'r Adran Addysg Grefyddol gyda dros 200 yn ymgeisio o flynyddoedd 7, 8 a 9 a gwelwyd gwaith yr enillydd.

(c) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn â'r ymateb a gafwyd drwy'r Sir i'r gystadleuaeth cenedlaethol Dathlu Addysg Grefyddol, dywedodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau mai 25 a ymgeisiodd drwy Gymru gyfan a oedd yn cynnwys un cais o Wynedd ac un o Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr enillwyr yng nghyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ddiweddar a nodwyd bod ysgol Ffrwd Win, Ynys Môn, wedi cael llwyddiant o ddod yn gydradd gyntaf yng nghategori ymgeiswyr y Cyfnod Sylfaen. Ysgol Bryn Coch, Y Fflint oedd yn fuddugol yng Nghyfnod Allweddol 2 a disgybl o Ferthyr oedd yn fuddugol o'r sector uwchradd.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch i Ms Williams am y cyflwyniad diddorol a chael y cyfle i weld ffrwyth gwaith ardderchog y disgyblion.**

## 6. RHAGLEN WAITH Y GWASANAETH YMGYNGHOROL

Adroddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar waith y gwasanaeth ymgynghorol mewn cefnogi ysgolion gan nodi bod ysgolion cynradd yn parhau i ddiweddaru cynlluniau gwaith yn unol â maes llafur cytûn.

(a) O safbwynt y sector uwchradd, atgoffwyd yr Aelodau bod angen i Adrannau Addysg Grefyddol ysgolion uwchradd anfon portffolio o waith disgyblion Cyfnod Allweddol 3 i safonwyr allanol. Dosbarthwyd llythyr i'r ysgolion yn ddiweddar yn gofyn iddynt gyflwyno portffolio yn y flwyddyn 2011/12. Rhagwelir y derbynnir llawer iawn o'r portffolios a gwneir apêl i apwyntio safonwyr ychwanegol a rheiny yn ddwyieithog. Roedd y broses eisoes wedi digwydd ymhob pwnc arall o'r cwricwlwm ac addysg grefyddol ydoedd y pwnc olaf i fynd drwy'r broses. Dadl y llywodraeth ydoedd y dylai'r portffolio gynnwys gwaith sy'n adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd ar lawr y dosbarth ac nad yw'n waith ychwanegol i unrhyw Adran o ystyried bod y maes llafur cytûn yn weithredol ers Medi 2008.

(b) Cyfeiriwyd at Ganllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 a ddosbarthwyd i ysgolion yn amlinellu fel gall ysgolion gynllunio gwersi addysg grefyddol a chynllunio gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i blant gyrraedd lefelau uchel. Yn ychwanegol, roedd casgliad o enghreifftiau o waith disgyblion i'w gweld ar y CD ynghlwm i'r Rhaglen ac ymfalchïwyd yn y ffaith y gwelir enghreifftiau o waith Ysgol Penybryn, Tywyn ac Ysgol Llandygai ymysg yr enghreifftiau.
(Roedd copi o'r Canllawiau ar gael i'r Aelodau ar derfyn y cyfarfod).

(c) Yn ogystal, cyhoeddwyd canllawiau drafft yn ddiweddar ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a fyddai'n sicr o gael croeso gan yr ysgolion cynradd. Gall ysgolion fanteisio ar y samplau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Eto gwelir enghreifftiau o arferion da a gynhyrchwyd gan athrawon a disgyblion Ysgol Llanfachreth, Dolgellau.

(ch) Fel rhan o'i gwaith, nododd yr Ymgynghorydd Dyniaethau ei bod yn edrych ar sgiliau hanfodol megis cyfathrebu a llythrennedd o fewn gwersi ac fe welir enghreifftiau o arferion da gan athrawes Ysgol Dyffryn Ogwen yng nghylchgrawn Newyddion Addysg Grefyddol mewn datblygu ysgrifennu disgyblion o fewn addysg grefyddol.

(d) Yn olaf, cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau at ragolygon flwyddyn nesaf gyda'i chyfrifoldeb ychwanegol i ddatblygu Prosiect Meddwl ac Asesu. Fe'i chefnogir gan Mr Derek Evans yng ngwaith y Dyniaethau sydd ag arbenigedd mewn Technoleg Gwybodaeth ond yn athro dyniaethau wrth reddf. Nodwyd hefyd bod Mrs Leusa Jones wedi cytuno i barhau fel Athrawes Ymgynghorol am un ddiwrnod o'r wythnos.

**Penderfynwyd: Diolch a nodi adroddiad llafar yr Ymgynghorydd Dyniaethau.**

## 7. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

Cyflwynwyd : Cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2011 ym Mro Morgannwg. .

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi cynnwys cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2011ym Mro Morgannwg..**

## 8. GOHEBIAETH

Cyflwynwyd gohebiaeth a ddaeth i law ynglyn â'r bwriad i newidiadau yn y grantiau hyfforddi athrawon.

Cyfeiriwyd yr ohebiaeth at CYSAG Gwynedd gan Mr Rheinallt Thomas ac fe adroddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar y cefndir. Yn y gorffennol, roedd prinder athrawon addysg grefyddol ac fe roddwyd abwyd ychwanegol i ddarpar fyfyrwyr drwy gynnig grant iddynt i ddilyn y pwnc ac roedd nifer o bobl ifanc yng Nghymru yn manteisio ar y pryd o gael grant ychwanegol am addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byrdwn y datganiad gerbron ydoedd bod y grant yn dirwyn i ben ar gyfer darpar athrawon addysg grefyddol oherwydd bellach nad ydoedd yn cael ei ystyried yn bwnc prin. Mynegwyd pryder am hyn oherwydd bod prinder athrawon addysg grefyddol yng Ngwynedd yn barod ond ar y llaw arall deallir bod yn rhaid i Benaethiaid fod yn ofalus wrth hysbysebu a llenwi swyddi dysgu bod niferoedd plant yn yr ysgolion o fewn y sir yn lleihau. Fodd bynnag, nodwyd bod dysgu addysg grefyddol yn statudol ac efallai, oherwydd y datganiad uchod, y gellir colli arbenigedd o'r pwnc.

Mynegwyd siom a thristwch gan sawl Aelod yn deillio o'r uchod ac awgrymwyd y dylid monitro'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD: Dylai CYSAG wylio'r sefyllfa yn ofalus a gweithredu yn ôl yr angen er mwyn gwarchod y pwnc i'r dyfodol.**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.15 pm**

**CADEIRYDD**